Cofnodion cryno – Pwyllgor y Llywydd

Lleoliad:

Fideogynhadledd drwy Zoom

Dyddiad: Dydd Llun, 11 Hydref 2021

Amser: 10.30 – 11.35

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/12558

O bell

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau o'r Senedd:	David Rees AS Rhys ab Owen AS Janet Finch-Saunders AS Peredur Owen Griffiths AS Joyce Watson AS
Tystion:	
Staff y Pwyllgor:	Huw Gapper (Clerc) Daniel Collier (Dirprwy Glerc)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod cyntaf Pwyllgor y Llywydd.

1.2 Ni chafwyd ymddiheuriadau na datganiadau o fuddiant.

2 Gweithdrefnau'r Pwyllgor a'i ffyrdd o weithio

2.1 Nid yw'r Rheolau Sefydlog yn galluogi Pwyllgor y Llywydd i ethol Cadeirydd dros dro, felly cytunodd y Pwyllgor, pe bai'r Cadeirydd yn profi anawsterau technegol

yn ystod y cyfarfod, y byddai Peredur Owen Griffiths AS yn arwain y trafodaethau yn ei absenoldeb.

3 Datganiad o Egwyddorion y Pwyllgor Cyllid ar gyfer cyrff a ariennir yn uniongyrchol

3.1 Ystyriodd y Pwyllgor ddatganiad o egwyddorion y Pwyllgor Cyllid, a nodwyd ei fod wedi'i fabwysiadu gan Bwyllgor y Llywydd y Bumed Senedd.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor i fabwysiadu datganiad o egwyddorion y Pwyllgor Cyllid a gofynnodd fod y Comisiwn Etholiadol yn rhoi sylw iddo wrth baratoi ei gynigion cyllidebol.

4 Papurau i'w nodi

4.1 Nododd y Pwyllgor lythyr gan Weinidog Gwladol Llywodraeth y DU dros y Cyfansoddiad a Datganoli ynghylch Bil Etholiadau Llywodraeth y DU.

4.2 Nododd y Pwyllgor hefyd bapurau briffio a ddarparwyd gan y Comisiwn Etholiadol ar Fil Etholiadau Llywodraeth y DU.

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1 Cytunwyd ar y cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

6 Sesiwn friffio technegol: Swyddogaethau Pwyllgor y Llywydd a'i gefndir deddfwriaethol

6.1 Cafodd aelodau'r Pwyllgor friff technegol ar swyddogaethau a chefndir deddfwriaethol y Pwyllgor.

7 Trafod gohebiaeth ynghylch Bil Etholiadau Llywodraeth y DU

7.1 Trafododd y Pwyllgor lythyr gan Chloe Smith AS, Gweinidog Gwladol Llywodraeth y DU dros y Cyfansoddiad a Datganoli ar y pryd yn gofyn barn y Llywydd ynghylch Bil Etholiadau Llywodraeth y DU.

7.2 Cytunodd y Pwyllgor i ymateb i'r llythyr ac anfon copi at Weinidogion perthnasol Cymru a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar gyfer eu hystyriaeth o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.